Y Chwilio'n Dechrau am Arwyr Gwyrdd Cymru

Mae Cynnal Cymru – Sustain Wales wedi lansio chwiliad anferthol i ddynodi 52 o hyrwyddwyr gwyrdd Cymru sy'n haeddu cydnabyddiaeth am fynd i'r afael â chynaladwyedd a newid yn yr hinsawdd.

Mewn ymdrech i gydnabod y gwaith gwych sy'n cael ei wneud i gyflawni dyfodol cynaladwy, fe ddatblygodd y sefydliad dielw fenter Rhestr Werdd Cymru â'r nod o ysbrydoli a chymell eraill i ddilyn esiampl yr hyrwyddwyr.

Nid oes unrhyw batrwm confensiynol ar gyfer yr enwebedig perffaith. Gall ymgeiswyr amrywio o arweinwyr busnes i grwpiau cymunedol, o artistiaid i wleidyddion, o ymgyrchwyr i gyfarwyddwyr cwmnïau, aelodau staff neu hyrwyddwyr prosiectau. Gallai enwebedigion fod yn mynd i'r afael â materion amgylcheddol a chymdeithasol yn eu pentref neu eu tref eu hunain, ar lefel ranbarthol, genedlaethol neu ryngwladol.

Er bod y fenter hon yn cynnwys y gair Werdd, nid yw'r chwiliad wedi'i gyfyngu i grwpiau amgylcheddol. Mae Cynnal Cymru'n ceisio dynodi'r bobl sydd, yn syml, yn gwneud gwahaniaeth. Mae gweithio tuag at adeiladu Cymru well, fwy cynaladwy yn hanfodol i'n dyfodol, ac felly mae'n haeddu cydnabyddiaeth.

Mae Cynnal Cymru – Sustain Wales yn croesawu enwebiadau o bob cwr o Gymru hyd 14eg Medi 2009. Bydd panel sy'n cynnwys ffigyrau dylanwadol o feysydd busnes, y cyfryngau, y sector gwirfoddol, menter gymdeithasol ac, yn naturiol, datblygiad cynaladwy yn dewis y Rhestr Werdd. 52 o straeon ysbrydoledig, 52 o esiamplau i'w dilyn, 52 o hyrwyddwyr gwyrdd – un ar gyfer pob wythnos o'r flwyddyn.

Meddai Helen Nelson, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynnal Cymru – Sustain Wales:

"Ledled Cymru, mae yna waith syfrdanol yn mynd rhagddo a fydd yn ysgogi dyfodol mwy cynaladwy. Mae pobl yn ymdrechu i wneud gwahaniaeth ac rwyf o'r farn ei bod hi'n bryd cydnabod eu hymdrechion ac annog eraill i ddilyn eu hesiampl, gan gofleidio cynaladwyedd.

"Rydyn ni'n chwilio am y grwpiau, y sefydliadau neu'r unigolion ymroddedig hynny sydd, gyda'u hagwedd benderfynol, wedi cael effaith bositif ar eu cymunedau, yr amgylchedd ac, yn y pen draw, bywydau pobl eraill, ac sy'n parhau i gael yr effaith honno."

Mae pobl ledled y wlad yn cael eu hannog i feddwl am hyrwyddwyr gwyrdd a'u henwebu i'w cynnwys ar Restr Werdd Cymru. Os ydych chi'n adnabod rhywun sydd wedi ymrwymo i wneud eu cymuned yn lle gwell, mwy cynaladwy, peidiwch â methu'r cyfle i ddathlu eu gweledigaeth a'u gwaith caled.

- DIWEDD –

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

- Helen Nelson, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynnal Cymru – Sustain Wales.
  Ffôn symudol: 07970 019933, e-bost: helen@cynnalcymru.org
- Michele Aitchison, Cynghorydd Polisi Cynnal Cymru – Sustain Wales.
  Ffôn: 02920 19 20 20, e-bost: michele@cynnalcymru.com
- Roz Robinson, Rheolwr Cyfathrebu Cynnal Cymru - Sustain Wales.
  Ffôn: 02920 192025, e-bost: roz@cynnalcymru.com

Nodiadau i'r golygyddion:

1. Sefydliad dielw yw Cynnal Cymru - Sustain Wales, sy'n hybu datblygu cynaladwy, yn cynghori'r llywodraeth ac yn darparu gwybodaeth ymarferol i helpu pobl yng Nghymru i fyw yn fwy cynaladwy. I gael mwy o wybodaeth am y sefydliad dilynwch y ddolen: http://www.sustainwales.com/home/cy/about_us.aspx

2. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth fanwl am y broses ymgeisio a'r meini prawf barnu ar gyfer Rhestr Werdd Cymru ar:
   http://www.sustainwales.com/home/cy/campaigns_greenlist.aspx